# Cymru



Prosiect Cadwraeth a Threftadaeth Dyffryn Gwyrdd
Croeso i dîm Cymru - ers 1994, rydym wedi dyfarnu dros £500m i fwy na 3,400 o brosiectau yng Nghymru diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

O'n harfordiroedd a'n cestyll, ein tirweddau, ein llenyddiaeth a'r iaith lafar hynaf yn Ewrop, mae gan Gymru dreftadaeth hynafol a chwedlonol. Mae'n dir o fryniau tonnog; adfeilion hanesyddol; a threftadaeth ddiwydiannol a welodd un tro lechi a glo Cymru yn cael eu hallforio ledled y byd.

**Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr i gael gwybod y diweddaraf**

Expand All accordions

## Cyllid sydd ar gael

### Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae ceisiadau bellach ar agor ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o £3,000 hyd at filiynau o bunnoedd.

## Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cymru

Cynllun grant cyfalaf gyda'r bwriad o alluogi cymunedau yng Nghymru i adfer a gwella natur.

## Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 4)

Nod y gronfa hon, sy'n dyfarnu grantiau rhwng £50,000 ac £1miliwn, yw cryfhau cydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig.

Expand All accordions

# Digwyddiadau sydd ar y gweill

Mae ein gweithdai ariannu a'n sesiynau cynghori rheolaidd yn gyfle gwych i gael gwybod am ein cyllid, cael awgrymiadau ar sut i wneud cais da a rhwydweithio gyda sefydliadau eraill o'ch ardal.

Dysgwch am ddigwyddiadau sydd ar y gweill yma.

Expand All accordions

# Cysylltwch â ni

E-bost: cymru@heritagefund.org.uk

Rhif Ffôn: 029 2034 3413 (Dydd Llun i Gwener, 9.00am–5.00pm)

Rydym yn gwbl weithredol ac yn agored i fusnes, ond rydym yn cynnal llawer o'n gwaith o ddydd i ddydd o'n cartrefi.

Anfonwch unrhyw eitemau drwy e-bost at eich cyswllt neu drwy'r prif gyfeiriad: cymru@heritagefund.org.uk

Mae gennym dîm cwbl ddwyieithog yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf. Rydym yn croesawu galwadau ffôn (Opsiwn 1 i siarad ag aelod o staff yn Gymraeg), e-byst a llythyrau yn Gymraeg ac yn Saesneg a ni fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi ychwanegol wrth ymateb. I gael rhagor o wybodaeth am y Gymraeg ac i glywed mwy am ein cynnydd presennol wrth i ni ddiweddaru ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol, ewch i'r dudalen yma.

**Ymweld â ni a chael mynediad**

Cyfeiriad: Clockwise Offices, T? Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd, CF24 0EB

Os ydych yn dymuno ymweld â ni wyneb yn wyneb, gyrrwch e-bost neu ffoniwch ni ymlaen llaw i drefnu apwyntiad.

Mae mynediad i'r adeilad ar bafin gwastad ac mae drysau cylchdroi a phweredig. Mae grisiau gyda chledrau llaw i fynedfa'r dderbynfa, ac mae lifft blatfform sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn hefyd. Lleolir y swyddfa, sy'n hygyrch, ar lawr y dderbynfa. Mae toiledau hygyrch yn yr adeilad a lifftiau i bob llawr.